

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 274 – 28 Ionawr 2005
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod busnes yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2005.

Marc Siarter

Mynegodd yr Aelodau eu llongyfarchiadau i'r Prif Weithredwr a'r staff ar ennill marc siarter am y trydydd tro.

Cynllun Cyfathrebu a Materion Strategol

Trafodwyd y galw am gynllun cyfathrebu clir o'r ymateb i'r gwahanol bapurau strategol a oedd ar waith megis Ofcom 3, BBC Papur Gwyrdd, Adroddiad Arglwydd Burns, Pwyllgor Dethol y Senedd a'r Cynulliad ac Adroddiad Laughton.

Cynllun Datblygu Newydd

Cymeradwywyd y cynllun datblygu newydd. Nodwyd mai'r prif amcanion oedd creadigrwydd a dyfeisgarwch a'r prif nodweddion oedd system agored, tryloywder, atebol yn ariannol, strategol a chyhoeddus.

Amlinellwyd y bwriad i gyhoeddi'r cynllun o fewn wythnos gyda thendr i ddilyn. Cyn cymeradwyo'r cynllun trafododd yr Awdurdod nifer o agweddau gwahanol. Cytunwyd nad geiriau gwag oedd gan yr Awdurdod, ond eu bod eisoes yn gweithredu'r egwyddorion craidd o'r model newydd ar gyfer S4C.

Cyngerdd y Tsunami

Trafodwyd yr hanes o dderbyn y rhaglen. Trafodwyd rhai o'r problemau gyda'r rhaglen. Mi oedd yn gonsensws ei fod wedi bod yn ddigwyddiad gwerth ei ddarlledu.

Nawdd S4C

Cymeradwywyd yr argymhellion ym mhapur y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol ar y Nawdd ar gyfer 2005.

- Cwmni Cambrensis a Chwmni Drama Bara Caws ar gyfer perfformiad llwyfan o 'Porc Peis Bach' yn Theatr Gwynedd, Bangor yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2005
- Black Welsh Film Festival ar gyfer gwyl 2005

- Voice of the Listener and Viewer (VLV) ar gyfer eu cynhadledd 'The Future for Public Service Broadcasting in Europe and the Commonwealth'
- Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig i noddi un o'i gwobrwyon i ysgolion
- Gwyl Ffilmiau a Theledu Celtaidd ar gyfer Gwyl Caerdydd
- Cwmni Inc sydd wedi ei sefydlu i gynorthwyo ac annog ysgrifenydd newydd
- Gwyl Teledu Rhyngwladol Caeredin

Materion eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Llythyr o Tessa Jowell
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion Cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 14 Ionawr 2005
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rhaglenni